LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

TORRI TELERAU AC AMODAU DEFNYDDIO YR YSTAFELL DDARLLEN , CASGLIADAU A GWASANAETHAU

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu gweithdrefnau Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer ymdrin â thorri telerau ac amodau mewn perthynas â defnyddio Ystafell Darllen, y casgliadau a'r gwasanaethau, yn cynnwys gwasanaethau a chasgliadau ar-lein.

Eu nod yw sicrhau cysondeb yn y modd yr ymdrinir ag achosion, a diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau staff priodol sydd ynghlwm wrth y broses. Mae'r Llyfrgell yn gweithredu system Camera Cylch Cyfyng yn ei Ystafell Ddarllen, a bydd yn ystyried recordiadau fel tystiolaeth bosib ym mhob achos o ymddygiad neu weithredoedd annerbyniol gan ein defnyddwyr. **

SUT BYDD Y LLYFRGELL YN DELIO Â THORRI TERMAU AC AMODAU DEFNYDD:

- Mae'r Llyfrgell yn darparu mynediad i'w Ystafell Ddarllen, casgliadau a gwasanaethau ac i'w gwasanaethau ar-lein ar yr amod bod pob defnyddiwr yn derbyn telerau ac amodau eu defnyddio.

  https://www.llyfrgell.cymru/fileadmin/docs_gwefan/new_structure/visit/things_to_do/reading_at_nlw/Telerau_ac_Amodau_Darllen_Ebrill_2026.pdfMae'r Llyfrgell yn cadw'r hawl i atal neu ddiddymu tocyn darllenydd, yn cynnwys aelodaeth ar-lein, pan nad yw defnyddiwr yn cydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn.

- Bydd pob achos o dorri'r telerau ac amodau sy'n cael ei nodi yn arwain at gymryd camau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Yn y rhan fwyaf o achosion, lle nad ystyrir y diffyg cydymffurfio yn fater difrifol, bydd staff yr Ystafell Ddarllen yn ceisio datrys y broblem mewn ffordd anffurfiol gyda'r defnyddiwr. Bydd pob achos o'r fath yn cael ei gofnodi ar ffeil bapur lle nodir enw'r defnyddiwr a rhif y cerdyn llyfrgell.

- Mae gan holl staff yr Ystafell Ddarllen gyfrifoldeb i sicrhau bod defnyddwyr yn cadw at y telerau ac amodau ar gyfer eu defnyddio, a phan fo'n angenrheidiol, byddant yn adrodd am achosion i Oruchwylwyr Ystafell Ddarllen. Lle bynnag y bo'n bosib, bydd y Goruchwyliwr (neu'r aelod hŷn o staff sydd â chyfrifoldeb am shifftiau hwyr neu shifftiau Sadwrn) yn ceisio datrys yr anghydfod yn uniongyrchol gyda'r defnyddiwr. Lle bo rhybudd geiriol yn cael ei roi, bydd enw'r defnyddiwr a'r rhif cerdyn llyfrgell yn cael eu cofnodi ynghyd â manylion bras ynghylch y digwyddiad.

- Bydd pob achos sy'n arwain at greu cofnod personol yn cael ei ddal ar ffeil gan Bennaeth Gwasanaethau Ymchwil yn unol â gofynion y Ddeddf Gwarchod Data.

- Os oes gofyn ymchwilio ymhellach i'r mater, gellir ychwanegu nodyn at gofnod y defnyddiwr ynghyd â manylion bras am y digwyddiad. Lle bo rhybudd ysgrifenedig yn cael ei roi, dylai pob

aelod o staff sydd ynghlwm wrth y mater gwblhau ffurflen adrodd am ddigwyddiad. Bydd hwn yn cael ei gadw yn ystod cyfnod aelodaeth y defnyddiwr, ac yn cael ei ddinistrio wedi hynny. Cedwir hwn gan Bennaeth Gwasanaethau Ymchwil, a phan fo digwyddiad wedi rhoi casgliad mewn perygl, gan Bennaeth Gofal Casgliadau.

- Os yw'r digwyddiad yn ddigon difrifol fel bod defnyddiwr yn cael ei wahardd rhag defnyddio'r cerdyn llyfrgell, bydd y cerdyn llyfrgell yn cael ei gadw, a gofynnir i'r defnyddiwr adael yr Ystafell Ddarllen. Bydd aelodaeth ar-lein y defnyddiwr hefyd yn cael ei atal dros gyfnod yr archwiliad i'r digwyddiad.

- Bydd Cyfarwyddwr Casgliadau yn adolygu pob adroddiad digwyddiad lle bo posibilrwydd i gerdyn llyfrgell defnyddiwr gael ei atal ac yn sicrhau bod archwiliad manwl yn cael ei gwblhau. Bydd y Cyfarwyddwr yn penderfynu ar y camau priodol yn seiliedig ar yr wybodaeth a gesglir. Ym mhob achos, anfonir ymateb ysgrifenedig i'r defnyddiwr o fewn 10 diwrnod gwaith i'r digwyddiad yn eu hysbysu ynghylch canlyniad yr archwiliad. Pan fo ymchwiliad yn cymryd mwy o amser, anfonir cydnabyddiaeth i'r defnyddiwr yn dynodi faint o amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad.

- Mewn achosion difrifol o dorri'r telerau ac amodau, neu weithredoedd anghyfreithlon, mae'r Llyfrgell yn cadw'r hawl i gymryd camau cyfreithiol ac i sicrhau erlyniad troseddol lle bynnag y bo hynny'n briodol.

- Mewn achos o rybudd ysgrifenedig, neu atal gerdyn llyfrgell defnyddiwr, rhoddir cyfle I'r defnyddiwr apelio. Dylai apeliadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig o fewn un mis o roi gwybod ynghylch y penderfyniad, at: Y Prif Weithredwr, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU. Ymdrinnir ag apeliadau gan y Llyfrgellydd a'r Prif Weithredwr a fydd, o bosib, yn cysylltu gyda Llywydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

- Mewn achosion lle mae gan y Llyfrgell wybodaeth ynghylch torri diogelwch gan ddefnyddwyr cofrestredig yn sydd wedi arwain at erlyniadau troseddol, mae'r Llyfrgell yn cadw'r hawl i rannu'r wybodaeth gyda sefydliadau eraill pan mae'n briodol.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol a all arwain at rybuddion geiriol neu ysgrifenedig, a/neu atal tocyn defnyddiwr, ond nid yw'r rhestr yn un gyflawn o bell ffordd, a bydd yn amrywio yn dibynnu ar y digwyddiad dan sylw. Mewn achosion lle mae'r Llyfrgell yn credu bod person wedi gweithredu'n anghyfreithlon, y mae'n cadw'r hawl i drosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu.

Ymddygiad ymosodol, digywilydd neu afresymol tuag at staff a/neu ddarllenwyr eraill

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – heb fod yn ddifrifol nac yn fygythiol	Rhybudd geiriol	Rheolwr yr Ystafell Ddarllen
Ail ddigwyddiad neu rybudd geiriol sy'n cael ei wrthod.	Rhybudd ysgrifenedig	Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil

Trydydd digwyddiad	Diddymu cerdyn llyfrgell y defnyddiwr yn barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein	Cyfarwyddwr Casgliadau
Ymddygiad ymosodol neu fygythiol sy'n debygol o achosi niwed neu i iechyd a diogelwch eraill	Symud o'r Llyfrgell yn syth. Cerdyn llyfrgell y defnyddiwr yn cael ei ddiddymu'n barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein	Cyfarwyddwr Casgliadau

Symud eitemau o'r casgliadau o'r Ystafell Ddarllen / adeilad

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – symud eitemau yn ddamweiniol neu oherwydd bod defnyddiwr newydd heb fod yn gyfarwydd â'r rheoliadau	Rhybudd geiriol gydag eglurhad o'r rheoliadau	Rheolwr yr Ystafell Ddarllen
Ail ddigwyddiad – tystiolaeth bod bwriad i symud eitemau	Rhybudd ysgrifenedig	Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil
Digwyddiad pellach	Cerdyn llyfrgell y defnyddiwr yn cael ei ddiddymu'n barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein	Cyfarwyddwr Casgliadau
Symud eitemau o'r casgliadau o'r adeilad	Cerdyn llyfrgell y defnyddiwr yn cael ei ddiddymu ar unwaith ac yn barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein Noder: Erlyniad troseddol mewn achosion priodol	Cyfarwyddwr Casgliadau Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Camddefnyddio, neu dorri, neu ddifrodi casgliadau'r Llyfrgell

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – roedd y weithred yn un ddamweiniol neu doedd dim tystiolaeth iddi ddigwydd yn fwriadol	Rhybudd geiriol – cyngor ar sut i drin y casgliadau	Rheolwr yr Ystafell Ddarllen
Ail ddigwyddiad – neu ddifrod mwy difrifol e.e. rhwygo neu dorri tudalennau, ysgrifennu ar ddeunydd	Rhybudd ysgrifenedig	Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil
Difrod difrifol – tystiolaeth eglur o ymddygiad bwriadol	Diddymu cerdyn llyfrgell y defnyddiwr ar unwaith ac yn	Cyfarwyddwr Casgliadau

e.e. tystiolaeth amlwg o ymddygiad bwriadol e.e. tynnu tudalennau neu dorri erthyglau allan, marcio parhaol a sylweddol ar eitemau o'r casgliadau	barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein Noder: Codir ffi i gwrdd â chost atgyweirio Erlyniad troseddol mewn achosion priodol	Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Cam-drin, difrodi neu ddwyn offer neu eiddo'r Llyfrgell

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – dim tystiolaeth o ddifrodi bwriadol	Rhybudd geiriol – rhoddir cyngor ar sut i ddefnyddio'r offer	Rheolwr Ystafell Ddarllen
Ail ddigwyddiad neu ddifrod mwy difrifol e.e. ymyrryd â chyfrifiadur neu offer trydanol neu fecanyddol o eiddo'r Llyfrgell	Rhybudd ysgrifenedig	Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil neu Bennaeth Casgliadau Cyhoeddedig
Difrod difrifol – tystiolaeth amlwg o weithredu bwriadol e.e. symud eitemau o offer y Llyfrgell o'r Ystafell Ddarllen, ymgais i dorri mewn i system y Llyfrgell neu unrhyw systemau eraill, difrod i ddodrefn a gosodion, dwyn eiddo'r Llyfrgell	Diddymu cerdyn llyfrgell y defnyddiwr ar unwaith ac yn barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein Noder: Codir ffi i gwrdd â chostau atgyweirio Erlyniad troseddol mewn achosion priodol	Cyfarwyddwr Casgliadau Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Camddefnyddio cynnwys ar gyfrifiaduron cyhoeddus neu gamddefnyddio rhwydwaith ddi-wifr y Llyfrgell

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – edrych ar ddeunydd pornograffig neu amhriodol	Rhybudd geiriol a chyfeiriad at Bolisi Defnydd Derbyniol o Gyfrifiaduron y Llyfrgell	Rheolwr Ystafell Ddarllen
Ail ddigwyddiad neu wrthod cydymffurfio gyda Pholisi Defnydd Derbyniol o Gyfrifiaduron y Llyfrgell	Rhybudd ysgrifenedig	Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil

Digwyddiad pellach	Diddymu cerdyn llyfrgell y defnyddiwr yn barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein	Cyfarwyddwr Casgliadau
Digwyddiadau yn ymwneud ag edrych ar ddeunydd anghyfreithlon, neu gyflwyno firws i systemau'r Llyfrgell	Diddymu cerdyn llyfrgell y defnyddiwr ar unwaith ac yn barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein Noder: Erlyniad troseddol mewn achosion priodol	Prif Weithredwr a Bwrdd Ymddiriedolwyr

Defnyddio camerâu neu offer sganio heb ganiatâd yn yr Ystafell Ddarllen

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – defnydd anfwriadol o gamera neu offer sganio anawdurdodedig	Rhybudd geiriol gydag eglurhad o'r rheoliadau a chais am i'r delweddau a dynnwyd gael eu dileu	Rheolwr Ystafell Ddarllen
Ail ddigwyddiad – defnydd bwriadol o gamera neu offer sganio	Rhybudd ysgrifenedig, a chais am i'r delweddau a dynnwyd gael eu dileu	Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil
Digwyddiadau pellach yn dilyn rhybudd ysgrifenedig	Diddymu cerdyn llyfrgell y defnyddiwr yn barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein a chais am i'r delweddau a dynnwyd gael eu dileu	Cyfarwyddwr Casgliadau

Methu â chydymffurfio gyda rheoliadau'r Ystafell Ddarllen

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – bwyta bwyd a / neu ddiod yn yr Ystafell Ddarllen (ac eithrio yfed dŵr oherwydd cyflwr meddygol)	Rhybudd geiriol, gydag eglurhad o'r rheoliadau Ail ddigwyddiad – rhybudd ysgrifenedig Digwyddiadau pellach – diddymu cerdyn llyfrgell y defnyddiwr yn barhaol, yn cynnwys cyfrif ar-lein	Staff Ystafell Ddarllen / Personél diogelwch ar ddyletswydd Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil Cyfarwyddwr Casgliadau
Defnyddio ffonau symudol i wneud neu dderbyn galwadau	Rhybudd geiriol gydag eglurhad o'r rheoliadau	Staff Ystafell Ddarllen ar ddyletswydd

	Digwyddiadau sy'n cael eu hailadrodd – gofynnir i'r darllenydd adael y ffôn symudol yn y locer a ddarperir	Staff Ystafell Ddarllen a / neu staff diogelwch ar ddyletswydd
Gwrthod gadael cotiau a bagiau yn y loceri a ddarperir (ac eithrio pan fo cyflwr meddygol yn gofyn am i fag sy'n cynnwys offer / cyflenwadau meddygol gael eu cadw gyda'r person)	Eglurhad o'r rheoliadau sydd ar waith – bydd unrhyw eithriadau ar ddisgresiwn y staff diogelwch sydd ar ddyletswydd yn y lle cyntaf	Personél diogelwch ar ddyletswydd Swyddog Ystafell Ddarllen neu'r Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil (neu'r aelod hŷn o staff dan ofal y shifft hwyr neu sifft Sadwrn)

YMDDYGIAD NEU WEITHREDOEDD ANNERBYNIOL MEWN MANNAU ERAILL HEBLAW YSTAFELL DDARLLEN Y GOGLEDD

Mae'r Llyfrgell yn disgwyl i'w staff gael eu trin gyda pharch a chwrteisi bob amser. Gall unrhyw weithred neu ymddygiad annerbyniol gan ddefnyddwyr ac ymwelwyr arwain at ddiddymu gwasanaethau a chyfleusterau'r Llyfrgell.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol sy'n gallu arwain at rybudd geiriol neu ysgrifenedig, ond nid yw'r rhestr yn gyflawn o bell ffordd. Mewn achosion lle rydym yn credu bod person wedi gweithredu yn anghyfreithlon, rydym yn cadw'r hawl i drosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu.

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu system Camera Cylch Cyfyng ym mhob ardal gyhoeddus o fewn y Llyfrgell, a bydd yn ystyried y recordiadau fel tystiolaeth bosib ym mhob achos lle bydd ein defnyddwyr neu ein hymwelwyr yn ymddwyn neu'n gweithredu mewn ffordd sy'n annerbyniol. **

Ymddygiad ymosodol, digywilydd neu afresymol tuag at staff a / neu ddarllenwyr eraill

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – heb fod yn ddifrifol nac yn fygythiol	Rhybudd geiriol	Y rheolwr sy'n gyfrifol am yr ardal lle bu'r digwyddiad i siarad gyda'r aelod o'r cyhoedd
Digwyddiad cyntaf – digwyddiad mwy difrifol neu rybydd geiriol yn cael ei wrthod	Rhybudd geiriol	Pennaeth yr Adran sy'n gyfrifol am yr ardal lle bu'r digwyddiad i siarad gyda'r aelod o'r cyhoedd (neu'r aelod hŷn o staff sy'n gyfrifol

		am y shifft hwyr neu'r shifft Sadwrn)
Ymddygiad difrïol neu fygythiol sy'n debygol o achosi niwed i iechyd a diogelwch eraill	Gwahardd o'r adeilad yn syth	Y cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am yr ardal lle bu'r digwyddodd i siarad ag aelod o'r cyhoedd

Torri neu ddifrodi eiddo'r Llyfrgell, yn cynnwys ardaloedd yr arddangosfeydd, y siop a'r caffi, neu ymyrryd yn fwriadol gyda systemau mecanyddol neu drydanol y Llyfrgell.

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Y dystiolaeth yn awgrymu mai gweithred ddamweiniol ydoedd neu nad oedd unrhyw dystiolaeth o weithredu bwriadol	Trafodaethau ar lafar	Y rheolwr sy'n gyfrifol am yr ardal lle digwyddodd y difrod i siarad gyda'r aelod o'r cyhoedd
Tystiolaeth o weithredu bwriadol i ddifrodi eiddo neu ymyrryd gydag offer neu eiddo'r Llyfrgell	Gwahardd o'r adeilad yn syth. Bydd y Llyfrgell yn ceisio adfer costau lle bo hynny'n briodol	Pennaeth Llyfrgell ar Ddyletswydd neu Bennaeth Ystadau a Gwasanaethau Atodol

Methu â chydymffurfio gyda chanllawiau a chyfarwyddyd gan staff y Llyfrgell

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Bwyta bwyd a diod yn yr ardaloedd ac eithrio rhai a glustnodwyd fel ardaloedd lle gellir bwyta e.e. Caffi Pendinas, y prif gyntedd ac ardal ymlacio yr Archif Ddarlledu	Rhybudd geiriol ynghyd ag eglurhad dros y rheoliadau	Personél diogelwch ar ddyletswydd
Anfodlon cydymffurfio gyda chais i adael yr adeilad ar ddiwedd y dydd neu yn ystod ymarfer tân neu ddigwyddiad gwirioneddol	Rhybudd geiriol ynghyd ag eglurhad ynghylch y peryglon i iechyd a diogelwch	Personél diogelwch ar ddyletswydd Pennaeth Ystadau a Gwasanaethau Atodol (neu'r aelod hŷn o staff sydd â gofal am y shifft hwyr neu'r shifft Sadwrn)
Tynnu ffotograffau yn yr ardaloedd cyhoeddus o fewn yr adeilad gyda chamera neu ddyfais symudol	Rhybudd geiriol ynghyd ag eglurhad ynghylch y rheoliadau	Personél diogelwch ar ddyletswydd

Sylwadau neu gyfraniadau difrïol, anghwrtais neu afresymol ar blatfformau LlGC arlein

Math o ddigwyddiad	Cosb	Cyfrifoldeb
Digwyddiad cyntaf – heb fod yn ddifrifol nac yn fygythiol	Rhybudd ysgrifenedig cyntaf	Pennaeth Mynediad a Chynnwys Digidol
Ail ddigwyddiad	Ail rybudd ysgrifenedig	Pennaeth Cyfathrebu
Trydydd ddigwyddiad neu unrhyw ddigwyddiad ddifrifol	Gwaharddiad parhaol o gyfrif y defnyddiwr	Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu

** Mae system Camera Cylch Cyfyng y Llyfrgell yn cydymffurfio gyda gofynion Deddfwriaeth Gwarchod Data, y Côd Ymddygiad a chanllawiau arfer da cyfredol a gyflwynwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. (Côd Ymarfer Gwarchod Data ar gyfer arolygiaeth, camerâu a gwybodaeth bersonol, Mai 2015).